Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Arolwg 2030 o Etholaethau'r Senedd

# Canllaw i Arolwg 2030

Medi 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i: http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn: www.cdffc.llyw.cymru

**CYNNWYS**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| PENNOD 1 | **CYFLWYNIAD** | 1 |
| PENNOD 2 | **DATBLYGU CYNIGION** | 3 |
| PENNOD 3 | **Y BROSES** | 6 |
| PENNOD 4 | **CYHOEDDUSRWYDD** | 11 |
| PENNOD 5 | **AR ÔL YR ADRODDIAD TERFYNOL** | 12 |
| ATODIAD A | Siart lif o'r broses | 13 |
| ATODIAD B | Polisi Enwi | 14 |


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

# Pennod 1: Cyflwyniad

### Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

1.1 Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (‘y Comisiwn’) yn Gorff annibynnol a diduedd a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a’n haelodaeth bresennol yw:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Karen Jones DL, MBA, MA (HRM), FCIPD |
| Dirprwy Gadeirydd | Michael Imperato |
| Comisiynwyr | Ian Bancroft |
| | Dianne Bevan |
| | Frank Cuthbert |
| | Siwan Davies |
| | Dr Anwen Elias |
| | Bethan Williams Price |
| | Ginger Wiegand |
| Prif Weithredwr | Shereen Williams MBE OStJ DL |

1.2 Mae’r Comisiwn yn gyfrifol am adolygu ffiniau etholaethau’r Senedd yng Nghymru ar sail rheolau a osodwyd gan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ac mae’n ofynnol iddo gyflwyno adroddiad ffurfiol gyda’i benderfyniadau terfynol cyn 1 Rhagfyr 2028.

1.3 Er mwyn paratoi ei adroddiad, bydd y Comisiwn yn cynnal proses arolygu ac fe allai hyn gynnwys newidiadau i etholaethau presennol y Senedd ledled Cymru. Mae’r Comisiwn yn cyfeirio at y broses hon fel ‘Arolwg 2030’.

1.4 Bydd ymgynghori â’r cyhoedd yn rhan bwysig o Arolwg 2030. Bydd y Comisiwn yn datblygu a chyhoeddi cynigion cychwynnol yn amlinellu 16 etholaeth y Senedd, gydag enw uniaith, lle bo’n briodol, yn ogystal â dynodi pob etholaeth ledled Cymru yn etholaeth sirol neu’n etholaeth fwrdeistrefol. Yna, bydd y Comisiwn yn ystyried cynrychiolaethau ysgrifenedig gan y cyhoedd ynglŷn â’i gynigion a dderbyniwyd yn ystod cyfnod ymgynghori 8 wythnos. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori cychwynnol, mae’n rhaid i’r Comisiwn gyhoeddi’r holl gynrychiolaethau a dderbyniodd yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd hyn yn dechrau ail gyfnod ymgynghori 6 wythnos. Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori hwn, mae’n rhaid i’r Comisiwn gynnal o leiaf 2 ond dim mwy na 5 gwrandawiad cyhoeddus ledled Cymru.

1.5 Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi dogfen sy’n cynnwys cofnodion y gwrandawiadau cyhoeddus ac unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a dderbyniwyd, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi cyfres ddiwygiedig o gynigion, os yw’n briodol. Bydd y rhain yn destun cyfnod ymgynghori 4 wythnos. Ar ôl ystyried yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd ar draws yr holl gyfnodau ymgynghori, bydd y Comisiwn yn paratoi adroddiad terfynol. Bydd y penderfyniadau a nodir yn ein hadroddiad terfynol yn cael eu rhoi ar waith trwy broses ddilynol, fel yr amlinellir yn y Ddeddf.

1.6 Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu'r canllaw hwn i helpu i esbonio'n fanylach sut y bydd y broses ar gyfer Arolwg 2030 yn gweithio. Ni fwriedir i'r canllaw hwn fod yn ddatganiad llawn o'r gyfraith ynglŷn â'r arolwg. Yn lle hynny, mae'n ymdrin â'r hyn y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei wneud yn ôl y ddeddfwriaeth, a'r polisïau y mae'r Comisiwn wedi penderfynu eu mabwysiadu wrth ddatblygu ei gynigion a'i benderfyniadau terfynol.

1.7 Mae'r Comisiwn yn gobeithio y bydd y canllaw hwn yn egluro ein prosesau a'n polisïau. Mae'r Comisiwn hefyd yn gobeithio y bydd yn annog y rhai a allai fod yn ystyried mynegi eu safbwyntiau i wneud hynny mewn modd gwybodus ac effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn cydnabod y gallai unigolion ddymuno gofyn cwestiynau, y dylid eu cyfeirio at y canlynol:

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Llawr 4
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2046 4819
Ffacs: 029 2046 4823
E-bost: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru
Gwefan: www.cdffc.llyw.cymru

Bydd y Comisiwn yn diweddaru'r wybodaeth ar ei gwefan drwy gydol ei broses arolygu a bydd dogfennau allweddol ar gael trwy'r wefan.

1.8 Hoffai'r Comisiwn bwysleisio bod yr arolwg hwn yn ymwneud ag etholaethau'r Senedd yn unig ac nad yw'n effeithio ar etholaethau seneddol; ffiniau prif gynghorau, wardiau etholiadol na chymunedau; trethi; na gwasanaethau.

# Pennod 2: Datblygu cynigion

### Gofynion y Ddeddf

2.1 Mae’r Ddeddf yn amlinellu gofynion sy’n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol. Y gofynion hyn yw bod rhaid i’r Comisiwn gynnal arolwg i bennu:

- enwau etholaethau’r Senedd;
- p’un a yw pob etholaeth y Senedd yn cael ei dynodi’n etholaeth sirol neu fwrdeistrefol;
- nifer yr etholwyr ar gyfer pob etholaeth y Senedd (mae’n rhaid iddo fod o fewn 10% o’r cwota etholiadol)
- caiff y Comisiwn ystyried –
    - ffiniau llywodraeth leol sy’n bodoli neu rai sydd yn yr arfaeth
    - ystyriaethau daearyddol arbennig fel maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
    - cysylltiadau lleol, gan gynnwys defnyddio’r Gymraeg.

Sut bynnag, mae’n rhaid i’r Comisiwn geisio lleihau newidiadau gymaint â phosibl ac ystyried yr anghyfleustra a achosir trwy wneud newidiadau.

Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol

2.3 Caiff y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol wrth ddatblygu ei gynigion a’i argymhellion ar gyfer etholaethau’r Senedd. Mae’r rhain yn cynnwys ffiniau allanol prif gynghorau, a’u ffiniau wardiau etholiadol, cymunedol, neu wardiau cymunedol mewnol. Mae materion yn ymwneud â’r Gymraeg, diwylliant, hanes a ffactorau economaidd-gymdeithasol i gyd yn agweddau y gellir eu hystyried o dan gysylltiadau lleol.

Ystyriaethau daearyddol arbennig

2.4 Mae’r Comisiwn o’r farn y bydd ystyriaethau daearyddol arbennig a allai effeithio ar ffiniau etholaethau yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd, yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol.

2.5 Er y bydd y Comisiwn yn ceisio ystyried ffiniau allanol prif gynghorau cyn belled ag y bo’n ymarferol, mae’n bosibl y bydd angen croesi’r ffiniau hyn yn aml i ffurfio etholaethau.

2.6 Mae’r Comisiwn o’r farn bod ffiniau cymunedol presennol wedi cael eu creu i gydnabod cysylltiadau lleol, fwy na thebyg, ac felly eu bod yn debygol o adlewyrchu cysylltiadau lleol. O ganlyniad, polisi’r Comisiwn yw peidio â rhannu cymunedau presennol pan fydd yn datblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer etholaethau’r Senedd, oni bai nad oes datrysiad arall ar gael.

2.7 Mae'r Comisiwn o'r farn mai cymuned yw haen gyntaf llywodraeth leol ac fe'i defnyddir i ffurfio wardiau etholiadol ar lefel prif gyngor. Mae ardaloedd cymunedol yn rhychwantu Cymru gyfan, felly byddwch mewn cymuned, ble bynnag yr ydych yn byw.

## Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried

2.8 Ni fydd yr Arolwg yn ystyried materion sydd y tu allan i gylch gwaith statudol y Comisiwn, gan gynnwys:

- Y system etholiadol a chynrychiolaeth
- Yr effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol
- Gweithredu'r argymhellion
- Ffiniau gwasanaethau cyhoeddus a gweinyddol
- Materion gweinyddol eraill, fel dyrannu codau post, cyfeiriadau eiddo neu fynediad at seilwaith, cyfleusterau neu wasanaethau lleol.

## Enwi a dynodi etholaethau

2.9 Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod y Comisiwn yn pennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig.

Enwi

2.10 Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i bob etholaeth yng Nghymru gael enw uniaith, oni bai bod y Comisiwn o'r farn y byddai hynny'n annerbyniol. Os felly, mae'n rhaid iddo gynnig enwau gwahanol ar gyfer cyfathrebu trwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag orgraff yr enwau arfaethedig. Mae'r polisi enwi llawn ar gyfer yr arolwg wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

Dynodi

2.11 Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod pob etholaeth yn cael ei dynodi'n etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Mae'r Comisiwn o'r farn, yn gyffredinol, pan fydd etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach, y dylid eu dynodi'n etholaethau sirol, fel arfer. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi'n etholaethau bwrdeistrefol. Mae'r dynodiad yn dilyn enw'r etholaeth ac yn cael ei dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer etholaeth fwrdeistrefol a CC ar gyfer etholaeth sirol.

## Y Gymraeg

2.12 Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd ac mae'n croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall.

2.13 Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei holl ddogfennau canllaw ac adroddiadau a'r holl gynrychiolaethau y mae'n eu derbyn drwy gydol Arolwg 2030 yn Gymraeg a Saesneg ar ei wefan.

### Effaith y ddeddfwriaeth

2.14 Bydd y Ddeddf yn golygu y bydd 16 o etholaethau'r Senedd yng Nghymru o hyd, a bydd pob etholaeth yn cael ei chynrychioli gan 6 aelod. Bydd hyn yn arwain at 96 o aelodau'r Senedd ledled Cymru.

2.15 Hoffai'r Comisiwn egluro o'r dechrau na all newid unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth, ac felly na fydd yn gallu ystyried cynrychiolaethau sy'n gwneud sylwadau ar nifer yr aelodau, y system bleidleisio nac unrhyw ffactorau eraill a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Rôl y Comisiwn yw pennu etholaethau'r Senedd fel yr amlinellir yn y ddeddfwriaeth.

# Pennod 3: Y broses

3.1 Bydd Arolwg 2030 yn dilyn proses fanwl a osodwyd gan y Ddeddf. Mae'r broses honno'n cynnwys datblygu cynigion gan y Comisiwn, a ddilynir gan gyfleoedd i unigolion a sefydliadau gyflwyno cynrychiolaethau llafar ac ysgrifenedig.

3.2 Ar ddiwedd y broses, bydd y Comisiwn yn paratoi adroddiad terfynol sy'n cynnwys ei benderfyniadau ar gyfer etholaethau'r Senedd yng Nghymru. Yna, bydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gweithredu trwy broses yn y Senedd.

### Pwysigrwydd cymryd rhan

3.3 Hoffai'r Comisiwn annog unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn ei gynigion ar gyfer eu hardal i wneud cynrychiolaethau i'r Comisiwn, boed hynny o blaid neu yn erbyn y cynigion.

3.4 Gofynnir i'r rhai sy'n rhoi eu barn ddweud a ydynt yn cymeradwyo neu'n gwrthwynebu cynigion y Comisiwn. Cynghorir gwrthwynebwyr yn arbennig i ddweud beth maen nhw'n ei gynnig yn lle cynigion y Comisiwn. Mae'n debygol y bydd mwy o bwys yn cael ei roi i wrthwynebiad sy'n cynnwys gwrthgynnig ymarferol na datganiad syml o wrthwynebiad. Yn hyn o beth, bydd gwrthgynnig sy'n mynd i'r afael â chyfansoddiad pob etholaeth mewn ardal yn cael ei ystyried yn fwy darbwyllol, yn gyffredinol, na chynnig ar gyfer cyfansoddiad un etholaeth yn unig nad yw'n mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau cynyddol ar yr etholaethau eraill.

3.5 Anogir unigolion a sefydliadau yn arbennig i wneud cynrychiolaethau ar gam priodol y broses statudol. Er enghraifft, fe allai pobl nad ydynt yn cyflwyno cynrychiolaethau o blaid cynigion cychwynnol y Comisiwn ganfod bod y Comisiwn, yng ngoleuni gwrthwynebiadau a dderbyniwyd gan bobl eraill, yn cyhoeddi cynigion diwygiedig neu benderfyniadau terfynol yn ddiweddarach nad ydynt yn eu cefnogi. Felly, mae'n bwysig (er enghraifft) i bobl sy'n cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn ddweud hynny yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol (a ddisgrifir ymhellach isod).

3.6 Bydd cymryd rhan yn Arolwg 2030 yn llawn ac yn brydlon yn helpu'r Comisiwn i ddeall safbwyntiau lleol ar ei gynigion yn fwy cywir. Bydd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd penderfyniadau terfynol y Comisiwn yn dderbyniol yn gyffredinol i fwyafrif y bobl y bydd rhaid iddynt fyw a gweithio gyda nhw.

3.7 Er mwyn gwarchod preifatrwydd unigolion sy'n cymryd rhan mewn arolwg, bydd y Comisiwn yn dilyn y dull canlynol wrth guddio gwybodaeth bersonol a gynhwysir mewn cynrychiolaethau a gyhoeddir gan y Comisiwn.

3.8 Pan fydd y Comisiwn yn cyhoeddi cynrychiolaethau gan ffigurau cyhoeddus a swyddogion (fel cynghorwyr, Aelodau Seneddol neu Aelodau'r Senedd) a gyflwynwyd i'r Comisiwn mewn rhinwedd swyddogol:

- bydd y Comisiwn yn cyhoeddi enw unrhyw ffigur cyhoeddus neu swyddog sy'n ysgrifennu mewn rhinwedd swyddogol;
- fodd bynnag, bydd yr holl gyfeiriadau post ac e-bost, rhifau ffôn a llofnodion yn cael eu cuddio.

3.9 Pan fydd y Comisiwn yn cyhoeddi cynrychiolaethau gan aelodau'r cyhoedd, a chan ffigurau cyhoeddus neu swyddogion sy'n ysgrifennu mewn rhinwedd bersonol:

- bydd y Comisiwn yn cuddio enw a chyfeiriad post unigolion sy'n cyflwyno cynrychiolaethau, ond bydd yn cyhoeddi lleoliad bras cyfeiriad post yr unigolyn – hynny yw, trwy gyfeirio at y pentref, y dref neu'r ddinas a nodwyd; a
- bydd yr holl gyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn a llofnodion yn cael eu cuddio.

3.10 Mae 'Polisi diogelu data a phreifatrwydd' y Comisiwn yn rhoi mwy o wybodaeth am sut mae'r Comisiwn yn prosesu data personol. Gellir ei weld ar wefan y Comisiwn.

3.11 Os hoffech gael gwybod pan fydd y Comisiwn yn cyhoeddi dogfennau yn ymwneud ag Arolwg 2030, gallwch ofyn am gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio trwy gysylltu â ni yn ymholiadau@cdffc.llyw.cymru.

### Paratoi cynigion cychwynnol

3.12 Ar ddechrau'r broses statudol, bydd y Comisiwn yn paratoi ei gynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau'r Senedd yng Nghymru.

3.13 Bydd y Comisiwn yn datblygu ei gynigion cychwynnol yng ngoleuni'r rheolau a'r ffactorau y cyfeirir atynt ym Mhennod 2 y canllaw hwn. Ni fydd y Comisiwn yn defnyddio un man cychwyn daearyddol a bennwyd ymlaen llaw i ddatblygu ei gynigion. Yn lle hynny, ystyrir ystod eang o opsiynau. Dim ond ar ôl ystyried nifer o opsiynau etholaethau ar gyfer Cymru gyfan y bydd y Comisiwn yn penderfynu ar gynigion cychwynnol.

### Cyhoeddi cynigion cychwynnol

3.14 Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar ei gynigion cychwynnol, bydd yn cyhoeddi'r cynigion ac adroddiad cysylltiedig ar ei wefan, ynghyd â gwybodaeth fanwl am sut a phryd y gellir cyflwyno safbwyntiau ar y cynigion hynny.

3.15 Yn ogystal â'r cynigion cychwynnol a'i adroddiad arnynt, bydd y Comisiwn yn darparu mapiau manwl ar ei wefan sy'n dangos, ymhlith gwybodaeth arall, enw, dynodiad a ffin arfaethedig pob etholaeth arfaethedig, er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall y cynigion yn well.

3.16 Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion cychwynnol, bydd y Comisiwn yn dechrau ymarfer cyhoeddusrwydd sy'n canolbwyntio ar dynnu sylw'r cyhoedd at y cynigion a'r cyfle i gyflwyno sylwadau arnynt. Bydd y Comisiwn hefyd yn anfon dolenni i'r cynigion trwy e-bost at bobl sydd wedi gofyn am gael gwybod ac at randdeiliaid allweddol.

### Cyfnod ymgynghori cychwynnol

3.17 Ar ôl i gynigion cychwynnol y Comisiwn gael eu cyhoeddi, bydd cyfnod 8 wythnos pryd y gellir gwneud cynrychiolaethau i'r Comisiwn ynglŷn â'r cynigion cychwynnol. Adwaenir hyn fel y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

3.18 Bydd manylion ynglŷn â sut gall unigolion a sefydliadau wneud cynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, gan gynnwys y dyddiad olaf ar gyfer derbyn cynrychiolaethau, yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynigion cychwynnol eu hunain. Mae'n hollbwysig bod cynrychiolaethau'n cael eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau eu bod yn cael eu derbyn o fewn y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

### Ail gyfnod ymgynghori

3.19 Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori cychwynnol, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau a dderbyniodd yn ystod y cyfnod hwnnw ar ei wefan yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y Comisiwn yn datgan ar y gynrychiolaeth ym mha iaith y gwnaed y gynrychiolaeth wreiddiol.

3.20 Pan fydd y cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi, bydd cyfnod arall o 6 wythnos pryd y gall pobl gyflwyno sylwadau ar y cynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Adwaenir y cyfnod 6 wythnos arall hwn fel yr 'ail gyfnod ymgynghori'.

3.21 Felly, yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, gellir cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn sy'n herio neu'n cefnogi honiadau a wnaed gan eraill mewn cynrychiolaethau blaenorol.

3.22 Mae'n rhaid i'r Comisiwn gynnal gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn, hefyd.

<u>Gwrandawiadau cyhoeddus</u>

3.23 Yn ôl y ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal o leiaf 2 a dim mwy na 5 gwrandawiad cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ymwneud â chynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Cymru a byddant, rhyngddynt, yn rhychwantu Cymru gyfan.

3.24 Bydd manylion lleoliadau a dyddiadau'r gwrandawiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

3.25 Diben gwrandawiad cyhoeddus yw rhoi cyfle i bobl wneud cynrychiolaethau llafar ynglŷn ag unrhyw un o gynigion cychwynnol y Comisiwn (gan gynnwys enwi etholaethau) a chyflwyno unrhyw wrthgynigion.

3.26 Mae'r cynrychiolaethau ym mhob gwrandawiad cyhoeddus yn debygol o ganolbwyntio ar gynigion ar gyfer yr ardal sydd agosaf i leoliad y gwrandawiad, ond gellir gwneud cynrychiolaethau sy'n ymwneud ag unrhyw ran o Gymru.

3.27 Bydd rhagor o wybodaeth am y gwrandawiadau cyhoeddus ar gael yn y Canllaw i'r Gwrandawiadau Cyhoeddus, gan gynnwys lleoliadau, dyddiadau a'r weithdrefn a ddilynir yn y gwrandawiadau hynny.

## Ystyried cynrychiolaethau a chynigion diwygiedig

3.28 Ar ôl diwedd yr ail gyfnod ymgynghori, bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau llafar ac ysgrifenedig a dderbyniwyd. Ar ôl diwedd yr ail gyfnod ymgynghori, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori ar ei wefan, ynghyd â thrawsgrifiadau o'i wrandawiadau cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y Comisiwn yn datgan ar y gynrychiolaeth ym mha iaith y gwnaed y gynrychiolaeth wreiddiol.

3.29 Bydd y Comisiwn yn ystyried p'un a ddylid gwneud diwygiadau i'w gynigion cychwynnol, ac i ba raddau. Mae hyn yn cynnwys enwau etholaethau.

3.30 Ar ôl iddo ystyried, os bydd y Comisiwn yn penderfynu diwygio ei gynigion cychwynnol, bydd yn cyhoeddi ei gynigion diwygiedig, ynghyd ag adroddiad cysylltiedig, cyn dechrau trydydd cyfnod ymgynghori o 4 wythnos. Bydd unrhyw gynigion diwygiedig a deunyddiau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Bydd y Comisiwn hefyd yn anfon dolenni i unrhyw gynigion diwygiedig trwy e-bost at y rhai sydd wedi gofyn am gael gwybod ac at randdeiliaid allweddol. Ar ôl iddo ystyried, os na fydd y Comisiwn o'r farn bod unrhyw newidiadau'n briodol, bydd yn gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw.

3.31 Gellir gwneud cynrychiolaethau ynglŷn ag unrhyw gynigion diwygiedig yn ystod 4 wythnos y trydydd cyfnod ymgynghori.

3.32 Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod y trydydd cyfnod ymgynghori ynglŷn ag unrhyw gynigion diwygiedig yn Gymraeg a Saesneg ar wefan y Comisiwn yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei adroddiad penderfyniadau terfynol. Bydd y Comisiwn yn datgan ar y gynrychiolaeth ym mha iaith y gwnaed y gynrychiolaeth wreiddiol.

## Penderfyniadau terfynol ac adroddiad

3.33 Ar ôl diwedd y trydydd cyfnod ymgynghori, bydd y Comisiwn yn ystyried pa benderfyniadau terfynol i'w gwneud ar gyfer etholaethau'r Senedd yng Nghymru. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau llafar ac ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori.

3.34 Pan fydd y Comisiwn wedi gwneud ei benderfyniadau terfynol ar gyfer Cymru, bydd yn paratoi adroddiad ysgrifenedig ffurfiol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru cyn 1 Rhagfyr 2028. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan. Bydd y Comisiwn hefyd yn anfon dolenni i'w benderfyniadau trwy e-bost at y rhai sydd wedi gofyn am y wybodaeth ac at randdeiliaid allweddol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys disgrifiad o arolwg y Comisiwn,

disgrifiad o benderfyniadau terfynol y Comisiwn gan gynnwys enwau a dynodiadau pob un o'r etholaethau, a chyfres o fapiau sy'n dangos ffiniau'r etholaethau.

3.35 Bydd rôl y Comisiwn yn y broses arolygu yn dod i ben yn sgil cyflwyno'r adroddiad terfynol ffurfiol. Mae'r weithdrefn ar gyfer gweithredu etholaethau wedi'i hamlinellu yn y Ddeddf a Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol amdani.

# Pennod 4: Cyhoeddusrwydd

### Cyhoeddusrwydd i'r arolwg

4.1 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i roi gwybod i unrhyw unigolyn y mae'n ystyried ei fod yn briodol sut i gael at ei adroddiadau, gwahodd cynrychiolaethau ynglŷn â'i adroddiadau a hysbysu unrhyw unigolyn y mae'n ystyried ei fod yn briodol am y cyfnodau ymgynghori.

4.2 Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion cychwynnol, bydd y Comisiwn yn dechrau ymarfer cyhoeddusrwydd sy'n canolbwyntio ar dynnu sylw'r cyhoedd at y cynigion a'r cyfle i gyflwyno sylwadau arnynt.

# Pennod 5: Ar ôl yr adroddiad terfynol


### Gweithredu

5.1 Ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn adroddiad terfynol y Comisiwn, mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gweithredu'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno gerbron y Senedd a, sut bynnag, o fewn 14 wythnos o gyflwyno'r adroddiad i'r Senedd.

5.2 Ni chaiff Gweinidogion Cymru addasu penderfyniadau'r Comisiwn, oni bai y gofynnwyd iddynt wneud hynny'n benodol (yn ysgrifenedig a chyda rhesymau) gan y Comisiwn.

# ATODIAD A

**SIART LIF O'R BROSES**



# ATODIAD B

### Polisi Enwi

Yn ei arolwg 2030 o etholaethau'r Senedd, mae'n ofynnol i'r Comisiwn bennu enw unigol ar gyfer pob un o etholaethau'r Senedd y bydd yr etholaeth honno'n cael ei hadnabod wrtho yn Gymraeg a Saesneg, oni bai bod y Comisiwn o'r farn y byddai hynny'n annerbyniol. Os felly, caiff y Comisiwn bennu enw Cymraeg ac enw Saesneg ar gyfer yr etholaeth.

At y diben hwn, cam cyntaf y Comisiwn fydd pennu'r enw mwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth yn Gymraeg. Wrth benderfynu ar yr enw hwnnw, bydd y Comisiwn yn ystyried ffactorau amrywiol gan gynnwys y canlynol (ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig iddynt):

enwau etholaethau presennol y Senedd;

enwau lleoedd yn ardal yr etholaeth;

unrhyw enwau rhanbarthol neu ddisgrifiadau o'r ardal;

nodweddion daearyddol yn yr ardal; ac

enw unrhyw awdurdod (neu awdurdodau) lleol sy'n gyfrifol am yr ardal.

Yn y cyd-destun hwn, bydd y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth arbennig i unrhyw enwau neu eiriau perthnasol a ddefnyddir yn gyffredin yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y Comisiwn hefyd yn ceisio mabwysiadu enwau sy'n osgoi'r angen am dreiglo geiriau yn Gymraeg.

Ail gam y Comisiwn fydd ystyried p'un a yw'r enw Cymraeg a bennwyd ganddo ar y cam cyntaf yn dderbyniol i'w ddefnyddio yn Saesneg.

Bydd y Comisiwn o'r farn bod enw Cymraeg yn dderbyniol i'w ddefnyddio yn Saesneg os yw'n ystyried bod yr enw'n debygol o fod yn adnabyddus i breswylwyr yr un rhanbarth cyffredinol o Gymru nad yw'r Gymraeg yn brif iaith iddynt. Fe allai hyn fod oherwydd (er enghraifft) bod yr enw'n cynnwys enw lle sydd yr un peth neu'n debyg yn Gymraeg a Saesneg (fel Powys, Clwyd, Wrecsam, Aberdâr neu Bontypridd) neu oherwydd bod yr enw lle Cymraeg yn arbennig o adnabyddus yn y rhanbarth (fel Caerdydd neu Ynys Môn).

Os yw'r enw Cymraeg yn cynnwys mwy nag un gair, bydd y Comisiwn o'r farn bod yr enw hwnnw'n dderbyniol i'w ddefnyddio yn Saesneg dim ond os yw pob gair o'r enw'n debygol o fod yn adnabyddus yn y modd hwn. Yn unol â hynny:

os yw'r enw Cymraeg yn cynnwys un neu fwy o enwau lleoedd sy'n debygol o fod yn adnabyddus yn y modd hwn, yn ogystal ag enw lle nad yw'n debygol o fod yn adnabyddus, ni fydd y Comisiwn o'r farn bod yr enw hwnnw'n dderbyniol i'w ddefnyddio yn Saesneg;

os yw’r enw Cymraeg yn cynnwys geiriau nad ydynt yn enwau lleoedd (er enghraifft, dynodiad daearyddol fel “gogledd”, “de” neu “ganol”), ni fydd y Comisiwn o’r farn bod yr enw hwnnw’n dderbyniol i’w ddefnyddio yn Saesneg, fel arfer;

fodd bynnag, os yw’r enw Cymraeg yn cynnwys enwau lleoedd sy’n debygol o fod yn adnabyddus yn y modd hwn yn unig ynghyd â gair Cymraeg sy’n golygu “a”, bydd y Comisiwn o’r farn bod yr enw hwnnw’n dderbyniol i’w ddefnyddio yn Saesneg.

Felly, er enghraifft:

Byddai “Pontypridd ac Aberdâr” yn dderbyniol i’w ddefnyddio yn Saesneg, gan fod y ddau enw lle yn yr enw yn debyg yn Gymraeg a Saesneg ac yn debygol o fod yn adnabyddus i breswylwyr yr un rhanbarth cyffredinol o Gymru nad yw’r Gymraeg yn brif iaith iddynt, ac mae’r Comisiwn o’r farn bod y gair “ac” yn debygol o fod yn adnabyddus yn y cyd-destun hwn yn yr un ffordd;

fodd bynnag, ni fyddai “Gorllewin Pontypridd ac Aberdâr” yn dderbyniol i’w ddefnyddio yn Saesneg oherwydd ei fod yn cynnwys y dynodiad daearyddol “Gorllewin”, y mae’r Comisiwn o’r farn nad yw’n debygol o fod yn adnabyddus yn y modd a ddisgrifir uchod.

Os bydd y Comisiwn yn penderfynu bod yr enw Cymraeg yn dderbyniol i’w ddefnyddio yn Saesneg yn y modd hwn, bydd yn penderfynu mai hwnnw ddylai fod yr enw unigol ar gyfer yr etholaeth. Os bydd y Comisiwn yn penderfynu nad yw’r enw Cymraeg yn dderbyniol i’w ddefnyddio yn Saesneg, bydd yn penderfynu y dylai’r etholaeth gael ei henw Cymraeg yn ogystal ag enw Saesneg sy’n cynrychioli’r cyfieithiad Saesneg o’i henw Cymraeg.

© Hawlfraint y Goron 2026